cyswllt teulu
i deuluoedd gyda phlant anabl
ymgorffori'r
Ymddiriedolaeth Lady Hoare

Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Ysgrifennwyd gan Martin Davies, Swyddog Prosiect Pediatrig, Cyswllt Teulu Cymru.

Fe ellir cael rhagor o gopïau oddi wrth:
Cyswllt Teulu Cymru
Adeilad y Gyfnewidfa
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5EB

Ffôn 029 2049 8001
E-bost martin.davies@cafamily.org.uk
Gwefan www.cafamily.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 284912

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod gwanwyn 2006, fe gynhaliodd Cyswllt Teulu Cymru arolwg o deuluoedd, a oedd yn gofyn cwestiynau am eu profiadau o wasanaethau cadeiriau olwyn.

Ein nod oedd:-

- **Canfod y meysydd pryder pennaf i deuluoedd sydd â phlant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn;**
- **Edrych ar sut y mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC y Plant) hyd yn hyn wedi effeithio ar wasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

Fe dderbyniwyd cyfanswm o 52 o ymatebion oddi wrth rieni yr oedd eu plant yn defnyddio cadeiriau trydan a chadeiriau a weithredir â dwylo, fel ei gilydd.

Er yr oedd yna sylwadau cadarnhaol iawn, yr oedd y mwyafrif o rieni yn gallu dweud wrthym am rwystredigaethau gyda'r gyfundrefn gyfredol. Fe wnaeth ein harolwg amlygu amryw o bryderon penodol i deuluoedd.

- **Y mae yna lawer i wneud cyn y bydd y targed o ran amseroedd aros ar gyfer asesu a darparu cadeiriau olwyn, a nodir yn FfGC y Plant Cymru, yn cael eu cyrraedd.**
  - **Fe fu'n rhaid i fwy nag 80% o deuluoedd aros yn hwy na tharged y FfGC o 6 wythnos am asesiad.**
  - **Fe fu'n rhaid i fwy na 60% o deuluoedd aros yn hwy na tharged y FfGC o 8 wythnos i dderbyn eu cadair olwyn.**
- **Y mae'r gwaith o adolygu, atgyweirio a chynnal a chadw cadeiriau olwyn yn amrywio o deulu i deulu ac o ardal i ardal. Y mae yna bobl sy'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, ond nid yw'r profiadau hyn yn gyffredinol.**
- **Fe wnaeth rhieni amlygu'r angen am hyfforddiant gyda defnyddio cadeiriau olwyn iddynt eu hunain ac i'w plant.**
- **Y mae yna yn aml anawsterau gyda chael gafael ar yr ategolion priodol ar gyfer cadeiriau olwyn.**
- **Fe deimlai amryw o rieni nad yw'r gyfundrefn gyfredol yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion eu plentyn ac fe wnaethant alw am wasanaeth sydd wedi'i ganoli ar y plentyn neu'r person ifanc. Fe fyddai hyn yn cynnwys:-**
  - **Dewis ehangach o gadeiriau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer pobl ifanc.**
  - **Gwasanaeth sy'n cydnabod ac sy'n gallu ymateb i anghenion y plentyn/y person ifanc unigol.**

Rhagymadrodd

Pam ein bod ni llunio'r adroddiad hwn?

Yn syml iawn, fe wyddom fod gan gadeiriau olwyn ran aruthrol fawr ym mywydau plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Meddu ar y gadair olwyn briodol yw'r unig ffordd y gall llawer o blant a phobl ifanc gael unrhyw elfen o symudedd ac annibyniaeth. Pa bryd bynnag yr ydym yn cyfarfod â theuluoedd, y mae gwasanaethau cadeiriau olwyn bob amser yn cael eu crybwyll yn y sgwrs, yn ddi-feth, ac yr ydym yn ymwybodol fod yna bryderon mawr.

Y mae Cyswllt Teulu Cymru wedi ymuno â Barnardo's Cymru a Whizzkidz i ymgyrchu ynglŷn â materion cadeiriau olwyn. Ar y 13eg o Fehefin 2006, fe gafodd adroddiad Barnardo's/Whizzkidz ar wasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc, "Don't Push Me Around! / Peidiwch â Fy Ngwthio o Gwmpas!", ei lansio yng Nghynulliad Cymru yng Nghaerdydd. Y mae "Don't Push Me Around! / Peidiwch â Fy Ngwthio o Gwmpas!" yn edrych ar y sefyllfa ledled y DU. Ein nod yn yr adroddiad hwn yw amlygu'r materion allweddol a godwyd gan deuluoedd yng Nghymru.

Ym mis Hydref 2005, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru lansio'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC y Plant). Y mae hwn yn pennu safonau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac y mae'n cynnwys amryw o gamau allweddol penodol sy'n ymwneud ag asesu ar gyfer, cyflenwi a chynnal a chadw cadeiriau olwyn:-

"Y mae plant anabl yn gallu defnyddio'r cyfarpar y mae arnynt angen yn yr holl leoedd ble y maent yn treulio amser, e.e. ysgol, cartref, lleoliadau hamdden ac yn ystod gofal seibiant byr."
Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.
Gweithred Allweddol 5.15.

"Y mae yna brotocolau a safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn / seddu arbenigol sy'n cynnwys;

- ***Darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n diwallu anghenion plant anabl;***
- ***Darparu gwybodaeth eglur i weithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc parthed mynediad at wasanaethau seddu a chadeiriau olwyn;***
- ***Trefn cyfeirio unigol sy'n cwmpasu gwasanaethau a ddarperir drwy'r Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a'r rhai hynny a ddarperir gan beirianneg adsefydlu;***
- ***Asesiad o fewn 6 wythnos oddi ar dderbyn yr atgyfeiriad;***
- ***Darparu cadair olwyn neu gyfarpar o fewn 8 wythnos o'r asesiad;***
- ***Systemau Sicrwydd Ansawdd;***
- ***Gweithdrefnau atgyweirio a chynnal a chadw;***
- ***Adolygu anghenion y plentyn fel cam lleiaf yn flynyddol, yn unol ag anghenion a aseswyd yn unigol."***

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.
Gweithred Allweddol 5.17.

Y mae rhieni/gofalwyr ac eraill nad ydynt yn weithwyr proffesiynol yn cael cynnig hyfforddiant priodol a pharhaus i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion eu plentyn anabl. Fel cam lleiaf, y mae hyn yn cynnwys:

- ***Hyfforddiant priodol gyda defnyddio cyfarpar. Y mae'r gwaith o drefnu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth hyn yn cael ei gydlynu gan y person sy'n archebu'r cyfarpar, mewn cydweithrediad â'r cyflenwr;***
- ***Hyfforddiant mewn trin gyda dwylo;***

Detholiad o Weithred Allweddol 5.31 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.

Y mae FfGC y Plant yn strategaeth ddeng mlynedd i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yr oeddem yn dymuno darganfod a ydyw wedi dechrau gwneud gwahaniaeth i brofiadau teuluoedd o wasanaethau cadeiriau olwyn.

Methodoleg:-

Fe gyhoeddwyd holiadur gyda thaflen newyddion Cyswllt Teulu Cymru (rhifyn gwanwyn 2006). Fe ofynnwyd i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn ddweud wrthym am eu profiadau o wasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fe gafodd ymatebion eu dadansoddi a'u cymharu i ffurfio sail yr adroddiad hwn. Fe gaiff barn a sylwadau rhieni'u hargraffu mewn llythrennau italig o fewn dyfynodau.

Fe ofynnodd yr holiadur hefyd i deuluoedd a allem ni ddefnyddio'u hanesion fel astudiaethau achos. Fe gasglasom yr hanesion hyn drwy gyfrwng cyfweliadau ar y ffôn a chyfnewid e-byst. Y mae yna amryw wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Fe hoffai Cyswllt Teulu Cymru ddiolch i'r holl rieni a gymrodd ran yn yr arolwg, gyda diolchiadau neilltuol i'r sawl a wnaeth ganiatáu inni ddefnyddio'u profiadau fel astudiaethau achos.

Y mae'r adroddiad hwn wedi'i roi ynghyd gan Martin Davies, Swyddog Prosiect Pediatrig, Cyswllt Teulu Cymru.

Canlyniadau:-

- **Fe dderbyniwyd cyfanswm o 52 o ymatebion oddi wrth 18 o siroedd ledled Cymru.**
- **Yr oedd oed y plant neu'r personau ieuainc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn amrywio o 20 mis i 19 mlwydd oed. Fe ddefnyddiai atebwyr amrywiaeth o wahanol fathau o gadeiriau, yn cynnwys bygis, cadeiriau a weithredir â dwylo (rhai a wthir a rhai a yrrir ymlaen eu hunain) a chadeiriau gyda pheiriant.**
- **Yr oedd amryw yn defnyddio cyfuniad o gadeiriau a weithredir â dwylo a chadeiriau gyda pheiriant.**
- **Nid oedd dau o rieni eto wedi derbyn cadeiriau olwyn ar gyfer eu plant.**

Ein Canfyddiadau:-

Amseroedd Aros ar gyfer Asesiad a Danfon Cadair Olwyn

Y mae FfGC y Plant yn pennu targedau penodol ar gyfer amseroedd aros ar gyfer asesu ar gyfer cadeiriau olwyn ac yna'u danfon.

- **Fe wnaeth mwy nag 80% o deuluoedd aros yn hwy na tharged y FfGC o 6 wythnos am asesiad.**

Amseroedd Aros ar gyfer Asesiad					
Cyfanrif yr Atebwyr a Nododd	**0- 6 wythnos**	**6 wythnos – 3 mis**	**3- 6 mis**	**6 mis- 1 flwyddyn**	**Dros 1 flwyddyn**
37	**6 (16.22%)**	**8 (21.62%)**	**15(40.54%)**	**4 (10.81%)**	**4 (10.81%)**

- **Fe wnaeth mwy na 60% o deuluoedd aros yn hwy na tharged y FfGC o 8 wythnos i dderbyn cadair olwyn.**

Amseroedd Aros ar gyfer Danfon Cadair Olwyn					
Cyfanrif yr Atebwyr a Nododd	**0- 8 wythnos**	**8 wythnos – 3 mis**	**3 – 6 mis**	**6 mis - 1 flwyddyn**	**Dros 1 flwyddyn**
46	**17(36.96%)**	**7 (15.22%)**	**14(30.43%)**	**6 (13.04%)**	**2(4.35%)**

Ailasesu

Y mae FfGC y Plant yn pennu targed ar gyfer adolygiad blynyddol o anghenion y plentyn.

- **Y mae traean y plant yn dal i beidio â chael eu hadolygu'n flynyddol.**

Amseroedd Aros ar gyfer Ailasesiad		
Cyfanrif yr Atebwyr a Nododd	**Adolygiad mewn blwyddyn neu lai**	**Adolygiad mewn mwy nag un flwyddyn**
33	**22 (66.67%)**	**11 (33.33%)**

Astudiaeth Achos – y rhwystredigaeth o aros……

Fe gafodd (fy mab) ei weld gan ei ffisiotherapydd, ac fe wnaeth hi gynghori y byddai cadair ysgafnach yn fwy addas. Fe gafodd ei atgyfeirio ym mis Mawrth 2005 ac fe ddywedwyd wrthym na fyddai yna apwyntiad ar gael am bum mis. 'Roedd ei gadair bresennol erbyn hynny eisoes yn rhy fach. Fe gwynais ac fe gafodd yna fersiwn fwy o'i gadair ar y pryd ei hanfon allan. Ni chawsom unrhyw apwyntiad. Pan ffoniais, fe wneuthum ddweud nad oeddem ar gael yn ystod rhai adegau oherwydd gwyliau ac apwyntiadau ysbyty. Fe ddaeth apwyntiad ar un o'r dyddiau hyn! Fe gwynais eto ac fe ddywedwyd wrthyf y byddai yna apwyntiad newydd yn dod. Ar ôl pedwar mis yn rhagor, fe ddywedwyd wrthyf nad oeddem wedi mynychu apwyntiad. Fe eglurais ein bod ni wedi canslo a'u hysbysu hwy yn syth bod fy mab yn Ysbyty Plant Bryste ar y diwrnod hwn. 'Rydym yn dal i aros……

Rhiant (yn ysgrifennu ym mis Ebrill 2006)

Fe amlygodd yr arolwg amryw o broblemau yn gysylltiedig â chadw golwg ar ac adolygu cadeiriau olwyn yn rheolaidd:-
Yn ychwanegol at y 33 o rieni uchod, yr oedd yna amryw o rieni (4) a ddywedodd wrthym fod anghenion eu plentyn ond yn cael eu hadolygu ar eu cais hwy. Y mae sylwadau'r rhieni yn awgrymu bod hyn yn digwydd dim ond pan nad yw cadair eu plentyn yn addas mwyach neu pan fo problem.

> ***"Fe ofynnais am ailasesiad oherwydd ei bod hi wedi tyfu'n fwy na'r gadair flaenorol."***
> **Rhiant**
>
> ***"'Rydym yn wastad yn gorfod gofyn am ailasesiad."***
> **Rhiant**

- **Fe all gohiriadau o ran cyflenwi cadeiriau olwyn yn y lle cyntaf olygu bod ar lawer o blant angen eu hailasesu yn syth.**

> ***"Erbyn i'r cadeiriau olwyn gael eu danfon (rhywbeth o 4 mis – 1 flwyddyn), mae ef wedi tyfu ac y maent yn rhy fach o lawer."***
> **Rhiant**

Y mae ailasesu yn aml yn golygu bod ar y plentyn/person ifanc angen cadair olwyn newydd. Fe wnaethom ofyn i rieni pa mor hir yr oeddynt wedi aros i dderbyn cadair olwyn newydd yn dilyn ailasesiad.

- **O'r 26 o rieni a nododd, yr oedd mwy na 70% wedi aros mwy nag 8 wythnos i dderbyn cadair olwyn newydd eu plentyn yn dilyn ailasesiad.**

Amseroedd Aros ar gyfer Danfon Cadair Olwyn ar ôl Ailasesiad					
Cyfanrif yr Atebwyr a Nododd	**0 - 8 wythnos**	**8 wythnos – 3 mis**	**4 – 6 mis**	**7 mis - 1 flwyddyn**	**Dros 1 flwyddyn**
26	**7(26.92%)**	**7(26.92%)**	**5(19.23%)**	**5(19.23%)**	**2 (7.69%)**

A yw cadair olwyn eich plentyn yn diwallu'i anghenion?

Fe wnaethom ofyn y cwestiwn hwn i ganfod a oedd plant a phobl ifanc, ar ôl aros am asesiad a derbyn cadair olwyn, o leiaf yn cael cadeiriau olwyn sy'n diwallu'u hanghenion.

- Yr oedd cyfanswm o 28 o rieni (53.85% o atebwyr) yn teimlo bod cadair olwyn eu plentyn yn diwallu'u hanghenion ac a oedd yn ddedwydd gyda'r effaith gadarnhaol y mae cael y gadair iawn wedi'i wneud i'w bywydau a bywyd eu plentyn.

> ***"Fe allwn fynd am deithiau cerdded gyda'n gilydd. Os bydd arnom angen mynd i siopa, fe allwn fynd fel teulu heb fod (fy merch) yn mynd yn rhy flinedig a rhywun yn gorfod eistedd yn y car gyda hi. Mae hi'n teimlo y gall hi fynd i leoedd gan wybod y bydd hi'n gallu dal i fyny gyda phawb arall."***
> **Rhiant**

Y mae yna enghreifftiau o arferion da. Fe wnaethom glywed oddi wrth rieni a oedd yn fodlon gyda'r gwasanaeth yr oeddynt wedi'i dderbyn a gyda'r gadair olwyn a ddarparwyd ar gyfer eu plentyn, ond yr oedd y profiadau hyn ymhell o fod yn gyffredinol.

> ***"Mae'r peiriannydd yn Rookwood yn seren. Mae'n dod i adnabod y plentyn a'r rhieni ac felly fe all farnu pa gadair olwyn sydd ei hangen."***
> **Rhiant**

Fe wnaeth amryw o rieni ddweud wrthym sut y gall cael y gadair olwyn/bygi briodol wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

> ***"Mae'r bygi arbenigol wedi'i fesur i ddiwallu anghenion (fy mab). Mae ganddo ofynion wedi'u hychwanegu i ddiwallu'i anghenion. Mae (ef) yn awr yn gallu bod yn gyfforddus ac y mae'n eistedd i fyny'n syth. Mae'n fachgen bach llawer dedwyddach yn ei bygi yn awr bod "y darnau cywir" yn cael eu cynnal yn gywir."***
> **Rhiant**

- Fe wnaeth pedwar o rieni eraill (7.69% o atebwyr) ateb ie ac na fel ei gilydd i'r cwestiwn hwn (y mae gan eu plentyn ddwy gadair a dim ond un sy'n diwallu'u hanghenion, y maent yn teimlo bod eu cadair yn diwallu dim ond rhywfaint o anghenion y plentyn, neu, mewn un achos oherwydd er eu bod yn teimlo bod y gadair yn diwallu anghenion y plentyn, nid yw'n diwallu'u hanghenion hwy'u hunain).

- Gan gymryd i ystyriaeth y ddau riant a ddywedodd wrthym eu bod yn dal i aros am gadeiriau olwyn ac ni allant felly fwrw sylwadaeth a hefyd y ffaith na wnaeth un rhiant ateb y cwestiwn, y mae hyn yn golygu y teimlai 17 o rieni (32.69% o atebwyr) nad oedd y gadair a ddarparwyd iddynt yn diwallu anghenion eu plentyn.

  Yr oedd y rhesymau yn amrywiol:-

  - Cadeiriau olwyn sydd yn rhy fach.

  Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, fe all arosiadau maith cyn derbyn cadair olygu mai erbyn y bydd y gadair wedi cyrraedd, fe all yn wir fod y plentyn/person ifanc wedi tyfu'n rhy fawr iddi.

  - Cadeiriau olwyn nad ydynt wedi'u haddasu'n iawn ac y mae arnynt angen rhagor o addasiad neu y mae arnynt angen eu hatgyweirio yn aml.

  Fe ddywedodd rhieni wrthym am offer gorffwys traed nad oedd modd eu cyfaddasu, seddau a oedd yr uchder anghywir a chlustogau nad oeddynt yn ffitio.

> ***"Nid yw platiau traed yn cynnal traed yn effeithiol, mae cydrannau bychain wedi dod i ffwrdd yn rhwydd, mae fy merch wedi rhoi sgriwiau o'r gadair yn ei cheg, dim cynhalydd i'r trwnc, dim ffenderydd i guddio'r adenydd olwynion, tyllau bychain i fysedd bychain fynd yn sownd ynddynt, olwynion yn cloi…."***
> **Rhiant**

- Cadeiriau olwyn nad ydynt yn addas i'w defnyddio ym mhob lleoliad.

Fe ddywedodd amryw o rieni wrthym am gadeiriau olwyn nad ydynt yn addas i'w defnyddio y tu allan ar unrhyw beth heblaw arwynebedd llyfn. Fe wnaeth rhieni dynnu sylw at y ffaith bod ar blant angen gallu defnyddio'u cadeiriau olwyn mewn amrywiaeth eang o leoliadau.

> ***"…ni allwn ddefnyddio'r gadair olwyn ar gyfer mynd am deithiau cerdded teuluol, ac yn y blaen - oherwydd y dirwedd 'rydym yn byw ynddi, ni fedr y gadair olwyn fynd dros ffyrdd a chaeau heb arwyneb, ac yr ydym yn gweld hyn yn broblem wirioneddol wrth fyw mewn ardal wledig."***
> **Rhiant**

> ***"Cadair â pheiriant a reolir gan rywun yn gweini. Trwm iawn, ni ellir mynd i mewn i siopau, cartrefi cyfeillion a rhai adeiladau cyhoeddus neu unrhyw gludiant brys."***
> **Rhiant**

- Cadeiriau olwyn sy'n rhy drwm neu anhylaw i'r plentyn eu symud o amgylch.

> ***"Mae'r gadair yn anodd i (fy mab) i wthio ar ei ben ei hun. Fe wnaethom ofyn am gadair ysgafnach ac fe'm cynghorwyd y byddai angen ei asesu ef. 18 mis yn ddiweddarach, yr ydym yn dal i aros."***
> **Rhiant**

- Cadeiriau olwyn sy'n rhy drwm neu anhylaw i rieni'u symud o gwmpas.

> ***"Pan fyddaf ar fy mhen fy hun, mae'i chael hi allan o'r car yn hunllef."***
> **Rhiant**
>
> ***"Mae hi'n drwm ac yn anhylaw ac yr ydych yn dal eich traed ar y gwaelod."***
> **Rhiant**

Atgyweirio, Adolygu a Chynnal a Chadw Cadeiriau Olwyn

Fe ddywedodd un ar ddeg ar hugain o rieni (59.62% o atebwyr) wrthym nad oedd cadeiriau olwyn eu plant yn cael eu hadolygu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd.

Yr oedd yna rieni o'r ddau grŵp a ddywedodd wrthym fod y cadeiriau yn cael eu hatgyweirio ar gais (er bod rhai sylwadau yn datgelu ymdeimlad o rwystredigaeth!).

> ***"…dim ond os byddaf yn sgrechian nerth esgyrn fy mhen ac yn bygwth dweud wrth y papurau amdanynt."***
> **Rhiant**

Mewn achosion eraill, y mae sylwadau yn dynodi bod rhieni yn teimlo y gallant alw ar beirianwyr pa bryd bynnag y bydd arnynt angen.

> ***"…os down ar draws problem gyda'r gadair, 'rydym wedi cael sylw eitha' prydlon."***
> **Rhiant**

Yn ddiddorol, fe ddywedodd un rhiant wrthym mai hwy a oedd yn cynnal a chadw cadair olwyn eu plentyn, a phan wnaethom yn ddiweddarach holi ynglŷn â hyfforddiant, fe wnaeth rhiant arall grybwyll yr hoffai wybod sut i wneud archwiliadau diogelwch, tra gwnaeth un arall ddatgan yr hoffai gael llenyddiaeth ynglŷn â gofalu am a chynnal a chadw'r gadair olwyn (gweler isod).

Hyfforddiant

Fe ddywedodd un ar ddeg ar hugain o rieni (59.62% o atebwyr) wrthym nad oeddynt hwy na'u plant wedi cael unrhyw hyfforddiant.

Fodd bynnag, y mae sylwadau rhai o'r rhieni a ddywedodd eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn dangos pa mor gyfyngedig yw'r hyfforddiant hwn yn aml.

> ***"Y person a wnaeth ei danfon a ddangosodd inni sut i'w gosod at ei gilydd."***
> **Rhiant**
>
> ***"Dau funud ar yr uned rheoli."***
> **Rhiant**
>
> ***"Fe ddangoswyd inni sut i blygu'r gadair olwyn a ble yr oedd y brêcs."***
> **Rhiant**

Yr oedd yna rai a deimlai eu bod wedi cael hyfforddiant digonol, ac fe grybwyllwyd ymdrechion un therapydd galwedigaethol yn y Ganolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yng Ngogledd Cymru a dau therapydd galwedigaethol mewn ysbyty yn Ne Cymru. Fe wnaeth teuluoedd eraill grybwyll yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Gymdeithas y Cadeiriau Olwyn a Cyswllt Teulu Cymru.

Pa fath o hyfforddiant yr hoffai rhieni gael iddynt eu hunain a'u plant?

- Hyfforddiant ar gyfer y plentyn/y person ifanc i faethu annibyniaeth ac i wella symudedd.

> ***"Fe gredaf ei bod hi'n bwysig iawn bod y plentyn yn cael arweiniad ynglŷn â symud y gadair, arweiniad ynglŷn â sut i fynd i mewn ac allan o'r gadair - y cyfan yn agweddau pwysig iawn ar gyfer annibyniaeth ond a gânt eu hesgeuluso gan y gwasanaeth hwn."***
> **Rhiant**

- Yr oedd pynciau o bwys i rieni yn cynnwys yr osgo cywir tra eu bod yn gwthio'r gadair a sut i godi cadeiriau yn ddiogel (yn enwedig i mewn ac allan o geir).

> ***"'Rwyf yn canfod bod gwthio yn rhoi straen ar fy nghefn oherwydd fy mod yn gorfod gwargrymu."***
> **Rhiant**
>
> ***"Mynd i i mewn/allan o'r car."***
> **Rhiant**

- Fe deimlai rhai rhieni hefyd yr hoffent gael gwybodaeth am ofalu am a chynnal a chadw cadeiriau olwyn a sut i wneud archwiliadau diogelwch.

> ***"Sut i godi'r gadair yn ddiogel ac archwiliadau diogelwch cyffredinol."***
> **Rhiant**
>
> ***"Fe fyddai rhywfaint o lenyddiaeth ynglŷn â gofalu am a chynnal a chadw'r gadair wedi bod yn ddefnyddiol. Danfonwyd y gadair heb unrhyw waith papur o gwbl."***
> **Rhiant**

- Fe wnaeth un rhiant ddatgan yr hoffai hi wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael iddi hi a'i phlentyn, y cyfarpar sydd ar gael a sut y gall fod o fudd.

> ***"Fe hoffwn gael gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael, syniadau am symudedd, rampiau, dyfeisiadau, bagiau cadair olwyn, gorchuddion, sut a pham bod dyfeisiadau â pheiriant o gymorth."***
> **Rhiant**

A ydych chi a'ch plentyn yn ddedwydd gyda'r gadair olwyn sydd ganddo/ganddi?

O ystyried yr oediadau maith ar gyfer asesu a danfon cadair olwyn, yr oeddem yn awyddus i wybod a oedd rhieni a phobl ifanc yn ddedwydd gyda'r cynnyrch terfynol. O 50 o rieni a atebodd y cwestiwn hwn, fe ddywedodd 19 o rieni (38%) wrthym nad oeddynt hwy a'u plant yn fodlon gyda'r gadair olwyn sydd ganddynt ar hyn o bryd.

- **Fe ddywedodd pedwar o rieni wrthym fod y cadeiriau yn rhy fach ar gyfer eu plant.**

> ***"Rhy fach o lawer, dim ond wedi'i chael yn ddiweddar, ond yn rhy fach erbyn iddi gyrraedd."***
> **Rhiant**

- **Wedyn yr oedd yna'r rhai hynny a ddywedodd wrthym fod y cadeiriau yn anaddas oherwydd nad oes ganddynt y nodweddion y mae arnynt angen:-**

> ***"Mae, ar y gorau, yn gyfaddawd oherwydd 'roedd yn rhaid inni fynd yn eithriadol o annifyr a dadleugar gyda gwasanaethau cadeiriau olwyn oherwydd nad oeddynt yn gwrando arnom o gwbl."***
> **Rhiant**

- **Yr oedd rhesymau eraill yn cynnwys trafferthion gyda chael ategolion addas a'r cadeiriau yn torri:-**

> ***".....mae arnom angen sedd ogwydd a hambwrdd. Yn ogystal â hyn, mae cydrannau yn tueddu i syrthio i ffwrdd yn rhwydd iawn."***
> **Rhiant**

- **A phroblemau gydag ymddangosiad y gadair:-**

> ***"Gan ei fod yn treulio'i holl amser yn ei gadair, fe allai edrych yn well a bod yn fwy cyfforddus."***
> **Rhiant**

Dewis a Hyblygrwydd

Fe ddywedodd ar un ddeg ar hugain o rieni (59.62% o atebwyr) wrthym nad oeddynt wedi cael cynnig dewis o gadair olwyn.

Yr oedd yna rieni a oedd yn ddedwydd gyda'r hyn a gynigiwyd iddynt.

> ***"Mae gwasanaethau cadeiriau olwyn Wrecsam dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud popeth y gallant i ddethol y gadair olwyn â pheiriant cywir ar gyfer anghenion fy merch……nid oes gennyf ond canmoliaeth am gymorth y therapydd galwedigaethol."***
> **Rhiant**

Fe deimlai rhai rhieni eu bod wedi gorfod brwydro i gael y gadair briodol.

> ***"Fe fu'n rhaid imi ymladd i gael y gadair olwyn gywir (i fy mab) ar gyfer ei gyflwr."***
> **Rhiant**

Y mae yna dystiolaeth oddi wrth sylwadau rhieni mai hyd yn oed pan fydd yna ddewis, y mae'n gyfyngedig:-

> ***"…'roedd yna ond un model ar gael; fe wnaethom ninnau ddewis y lliw ac ategolion."***
> **Rhiant**

Yr oedd eraill yn derbyn o'u hanfodd y ffaith y bydd dewis yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau ariannol a osodir ar y gwasanaeth cadeiriau olwyn:-

> ***"Fe gredaf y rhoddwyd dewis digonol imi o gadair olwyn ar gyfer fy mhlentyn ac ar gyfer ei anabledd, hefyd. 'Rwyf hefyd yn deall bod y cyllid ar gyfer cadeiriau olwyn a mathau eraill o gyfarpar yn gyfyngedig, ac felly nid oes diben gwneud ffwdan amdano."***
> **Rhiant**

Yr oedd yna hefyd y cwestiwn o'r gyfundrefn ddim yn bod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion pob plentyn. Fe wnaeth rhieni grybwyll nad yw plant a phobl ifanc i gyd yn ffitio i'r dosbarthiadau a bennir gan y gwasanaeth cadeiriau olwyn cyfredol a bod eu hanghenion yn newid ac yn datblygu.

> **Astudiaeth Achos – nid yw'r gyfundrefn yn ddigon hyblyg….**
>
> ***Nid yw'r gwasanaeth yn cymryd datblygiad y plentyn i ystyriaeth. Mae gan ein mab gadair â pheiriant, ond, gydag ymarfer, anogaeth a'r cyfle, fe allai, hwyrach, lwyddo i hunan-yrru drwy ddefnyddio cadair ysgafn addas a fyddai'n rhoi mwy o ryddid ac annibyniaeth iddo. Fodd bynnag, oherwydd y rheolau cyflenwi, ni all ef gael cadair â pheiriant yn ogystal â chadair ysgafn addas. Mae'r gadair a weithredir â dwylo sydd ganddo yn cael ei chategoreiddio fel "dros ben" ac felly ni ellir rhoi cadair hunan-yriant ysgafn inni, sy'n gwarafun y cyfle i'n mab ddysgu gwneud hyn.***
>
> ***Mae datblygiad plant a'u cyflyrau yn newid yn gyson. Er enghraifft, yn ystod misoedd yr haf, fe fyddai'n mab yn hoffi gallu hunan-yrru, ond ni all, oherwydd y rheolau cyflenwi. Nid yw'r ffaith bod arno angen cadair â pheiriant y rhan fwyaf o'r adeg yn golygu na allai hunan-yrru rywfaint o'r amser. Mae'i gyflwr meddygol yn dal i newid, ac yn anffodus, nid yw ei anghenion cyfredol yn cael eu diwallu yn briodol.***
>
> **Rhieni**

Fe ddywedodd rhai rhieni wrthym eu bod wedi meddwl ei bod yn aml yn achos y dylai'r plentyn gydweddu â'r gyfundrefn, yn hytrach nag fel arall yn hollol.

> ***"Fe hoffem iddynt gael cadeiriau sy'n ffitio'r plant. Nid gwneud i'r plant ffitio'r cadeiriau."***
> **Rhiant**

Un o'r pryderon oedd nad yw'r gyfundrefn gyfredol yn ystyried y plentyn neu'r person ifanc yn ei gyfanrwydd.

Astudiaeth Achos – nid yw'r gyfundrefn yn ystyried lles emosiynol a deallusol y plentyn ……..

Fe ddywedwyd wrthyf mai'r "Blade Plus" oedd yr unig gadair ar gael i blant o dan 13 mlwydd oed. Ni ddisgwylid i blant hunan-yrru tan yr oed hynny. 'Roedd y ffaith bod (fy mab) wedi bod yn ymdrechu i wneud hynny ers pan oedd yn 3 mlwydd oed yn ymddangos yn amherthnasol iddynt. Yn ystod y cyfnod hwn y gwnaeth (fy mab) fynychu'i gwrs cyntaf gyda chadair olwyn a weithredir â dwylo, a drefnwyd gan ein therapydd galwedigaethol pediatrig ac a gynhelir gan y Gymdeithas Cadeiriau Olwyn. Nid wyf yn ymwybodol o ac ni chefais erioed fy hysbysu ynglŷn ag unrhyw hyfforddiant cyffelyb yn cael ei weithredu gan wasanaethau cadeiriau olwyn Cymru. Fe osodwyd (fy mab) mewn Remploy Roller cymharol rad ac yr oeddem yn ddisymwth yn gallu gweld yr hyn y gallai'r plentyn hyn ei gyflawni. Fe allai yn wir fod yn hunan-ddibynnol o ran ei symudedd ac yr oeddem yn benderfynol o wneud rhywbeth amdano.

Fe ddywedwyd wrthyf unwaith eto mai'r Blade oedd yr unig gadair yr oeddynt wedi'i rhoi i blant yr oed hwn a oedd yn dymuno cael cadair olwyn a weithredir â dwylo ac nad oedd yna unrhyw angen i (fy mab) weld un o aseswyr y gwasanaeth cadeiriau olwyn. 'Roeddwn yn benderfynol o ymladd ein hachos ac fe ddywedais hynny wrth (fy mab); 'roedd y gadair olwyn yn gyfwerth â choesau ac esgidiau plentyn arall a fy mod yn sicr na fyddai hi'n anfon ei phlant ei hun i'r ysgol mewn esgidiau nad oeddynt yn ffitio. Fe eglurais fod y gadair olwyn nad oedd yn ffitio yn andwyol i les emosiynol a deallusol fy mab. 'Roedd ef wedi dod yn fwyfwy rhwystredig o fod wedi gweld yr hyn y gallai wneud mewn cadair addas. Fe ddywedwyd wrthyf nad oeddynt fel gwasanaeth yn ymwneud ag anghenion emosiynol a deallusol plentyn. Eu hunig gonsyrn oedd un corfforol. Fe wnaeth y Blade alluogi (fy mab) i fynd o A i B, a chyn belled ag yr oeddynt hwy yn y cwestiwn, fe olygai hyn fod eu rôl wedi'i chyflawni.

Fe ddywedwyd wrthyf y gallwn, os byddwn yn mynnu, ofyn i'n therapydd galwedigaethol ofyn am asesiad arall ond y byddai'n cymryd o leiaf 18 mis. Nid oeddem yn fodlon gadael (i'n mab) ddihoeni mewn cadair hollol anaddas ac felly gyda chymorth ein teulu fe wnaethom brynu Remploy Roller, ac fe roddwyd y Blade yn ein garej. Y canlyniad? Nid yw (fy mab) wedi edrych yn ôl.
Rhiant

Y mae'r FfGC yn datgan y dylai plant anabl allu defnyddio cyfarpar ym mhob lleoliad, ond yr ydym eisoes wedi clywed sut y cafodd un fam mewn ardal wledig anhawster i fynd â'i phlentyn allan am dro i gerdded. Nid y hi oedd yr unig un i gael y broblem hon.

> ***"Mae ar (fy mab) angen cadair ar gyfer y tu allan. Os byddaf yn ceisio â mynd ag ef am dro i gerdded – ar hyd llwybr garw, mae'r olwynion bychain yn mynd yn sownd yn syth ac ni allaf ei wthio ef. Nid oes yna hongiad ac felly ni allaf fynd ag ef ymaith o fannau palmantog. Nid oes yna glustog, ac felly, ar gyfer teithiau yn y bws, mae'i sedd yn galed iawn."***
> **Rhiant**

Cwestiwn mawr arall i rieni oedd y ffaith eu bod yn teimlo bod y ffordd yr oedd cadeiriau olwyn wedi'u dylunio yn fwy addas ar gyfer oedolion hŷn na phlant.

> ***"Fe hoffwn i fy mab gael cadair fwy modern. Mae ganddo ef a fy nghymydog sy'n 78 mlwydd oed yr union un fath o gadair."***
> **Rhiant**
>
> **"*Fe ddylai cynllunwyr cadeiriau olwyn ystyried bod llawer o blant anabl yn llwyr ymwybodol o'u hamgylchoedd ac yr hoffent gael cadeiriau mwy modern, ffasiynol. Fe wnaeth fy mhlentyn 12 mlwydd oed wrthod â defnyddio un gadair olwyn oherwydd ei fod yn credu ei bod yn fwy addas ar gyfer "hen nain".***
> **Rhiant**

Yr hyn sy'n allweddol i ganfod cadeiriau olwyn sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yw'r gallu i ganfod a chael gafael ar ategolion. Fe ddywedodd amryw o rieni wrthym eu bod wedi cael anhawster i gael gafael ar ategolion, unwaith yr oeddynt wedi derbyn y cadeiriau olwyn.

Fe ddywedodd rhai rhieni wrthym am arosiadau maith ar gyfer cael cyflenwad o offer gorffwys traed, hambyrddau a chlustogau:-

> ***"'Rydym yn dal i aros am y glustog. Fe'i harchebwyd hi 18 mis yn ôl ac yr ydym yn dal i aros am y bwrdd sy'n mynd ar y gadair."***
> **Rhiant**

Fe ddywedodd eraill wrthym fod arnynt angen prynu ategolion fel gorchuddion glaw, gorchuddion neu glustogau wedi'u padio, a'r broblem yw'r gost sy'n gysylltiedig â'r eitemau hyn.

> ***"'Rwyf wedi gofyn am fasged siopa a 'cosy toes' (pram/cadair olwyn). Fe allaf gael y rhain ond fe fyddant yn costio mwy na £200.00."***
> **Rhiant**

Cyllid

Fe grybwyllwyd y cwestiwn o gyllid pan fo gwasanaethau cadeiriau olwyn yn methu â darparu'r gadair neu'r darn o gyfarpar neilltuol y mae ar blentyn neu berson ifanc angen neu pan fo rieni yn teimlo bod anghenion neilltuol eu plentyn yn gofyn am fwy o hyblygrwydd nag y gallai gwasanaethau cadeiriau olwyn ei ganiatáu.

> ***"'Rydym hyd yn oed wedi mynd cyn belled â chynnig talu tuag at ddarparu'r gadair olwyn gywir. Mae arno angen cadair olwyn RGK, (ond) ni wnâi'r gwasanaethau hyd yn oed trafod yr opsiwn gyda ni. Nid oes ganddynt gytundeb gydag RGK ac felly ni wnânt ystyried y posibilrwydd o gwbl. Fe ddywedais y byddwn yn falch o fynd â'r cyfrifoldeb oddi arnynt os mai dyna'r broblem. Fe wnaethant ddweud na allant gynorthwyo gyda'r costau o gwbl pe bawn yn mynd y tu allan i'r gwasanaeth. Fe ofynnais iddynt pam na allent roi'r hyn y byddai'n ei gostio am gadair tuag at y gost o gadair RGK ac fe ddywedais y byddem ninnau'n codi'r arian i dalu'r gwahaniaeth ……. Nid oedd gan y gwasanaethau ddiddordeb mewn hyd yn oed trafod y peth gyda ni."***
> **Rhiant**

Yr oedd yna achosion niferus o deuluoedd yn prynu'u cadair eu hunain (gweler hefyd yr astudiaeth achos uchod "…*nid yw'r gyfundrefn yn ystyried lles emosiynol a deallusol y plentyn…").*

> ***"'Roedd arnom angen cadair olwyn gyda pheiriant (datodadwy) i'n cynorthwyo i wthio (fy merch). Mae hi'n eneth fawr, 12 stôn. Fe allai'r darparwr cadeiriau olwyn ond darparu cadair â pheiriant. Fe fyddai'n rhaid addasu'r car. 'Rydym yn deulu o bump ac ni allwn fforddio colli'r lle ar gyfer bagiau sydd gan ein car. Yn y diwedd, fe gawsom grant oddi wrth Radio Red Dragon i brynu cadair olwyn ysgafn a pheiriant datodadwy."***
> **Rhiant**

Dim ond un rhiant a grybwyllodd yr hoffai fod wedi derbyn taleb neu daliad uniongyrchol fel y gallant fod wedi canfod cadair olwyn ar gyfer eu mab.

Casgliad:-

Beth y mae rhieni yn dymuno'i gael oddi wrth y Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn?

Er bod yna rai sydd wedi'u plesio gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn pan fo'u plentyn yn cael ei asesu ac yn derbyn cadair olwyn, i lawer o rieni, y mae'r holl broses yn golygu gohiriadau a rhwystredigaeth.

Yn anad dim, y mae ar rieni angen gwybod pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros am i'w plentyn gael ei asesu a pha mor hir y bydd hi'n ei gymryd i'r gadair olwyn gyrraedd. Y mae FfGC y Plant yn pennu targedau ar gyfer asesiad am a derbyn cadeiriau olwyn, ond fe ddengys ein canfyddiadau ni nad yw'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd.

> ***"Mae graddfeydd amser yn ofnadwy – pan fo'r plant hyn yn dibynnu ar eu cadeiriau am fywyd beunyddiol sylfaenol."***
> **Rhiant**

Y mae FfGC y Plant hefyd yn pennu targed ar gyfer adolygiad blynyddol o gadeiriau olwyn. Nid yw hyn yn digwydd mewn traean o achosion, ac fe hoffai rhieni weld cyfundrefn sy'n sicrhau bod cadair eu plentyn yn cael ei hadolygu'n awtomatig.

> ***"Fe hoffem weld adolygiadau o anghenion o leiaf unwaith y flwyddyn mewn modd trefnus oddi wrth naill ai therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd."***
> **Rhiant**

Fe ddywedodd mwy na hanner y rhieni wrthym nad oeddynt na hwythau na'u plant wedi'u darparu ag unrhyw hyfforddiant, ac yr hoffai llawer gael hyfforddiant ar gyfer eu hunain ac ar gyfer eu plant, fel ei gilydd.

> ***"Fe gredaf y dylai fod yna hyfforddiant sylfaenol i bob defnyddiwr a gofalwr. "***
> **Rhiant**

I lawer o deuluoedd, un o'r beirniadaethau pennaf o'r gwasanaeth cyfredol yw nad ydyw, am ba reswm bynnag, yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion eu plentyn ac, ar ôl cael cadair olwyn, fe ddywedodd bron traean y rhieni y gwnaethom siarad â hwynt nad oedd y gadair a dderbyniwyd yn diwallu anghenion eu plentyn. Fe wnaeth 40% o rieni ddatgan na chynigiwyd dewis o gadair olwyn iddynt. Y mae yna gwestiynau mawr yn ymwneud â dewis a hyblygrwydd:-

- Yn neilltuol, fe hoffai rhieni gael cadeiriau olwyn sy'n ymddangos fel pe baent wedi'u dylunio ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Y mae yna hefyd y mater o gadeiriau olwyn sy'n gallu gweithio ym mhob lleoliad y mae ar y plentyn/y person ifanc angen ei gyrraedd (yn yr awyr agored yn ogystal ag o dan do, er enghraifft).
- Fe fyddai rhieni hefyd yn hoffi gallu cael ategolion megis hambyrddau a gorchuddion glaw yn rhwyddach ac am bris rhesymol.

Yn olaf, ar restr ddymuniadau rhieni y mae cyfundrefn sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion cyfannol y plentyn ac yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith yr effeithir ar fywydau rhieni, yn ogystal ag ar fywydau'r plant, pan fo'r plentyn yn ddefnyddiwr cadair olwyn.

> ***"Mae'r gadair yn rhan o'n rhyddid. Fe fyddai dull o fynd i mewn/dod allan o'r car yn rhoi'r hufen arni!"***
> **Rhiant**